



# Cadw'r goleuadau ymlaen

Mae ffyrdd gwahanol o gynhyrchu (gwneud) trydan. Gallwn ni ddefnyddio ynni niwclear neu losgi olew, glo a nwy i droi generaduron sy'n creu trydan. Hefyd, gallwn ni ddefnyddio gwynt neu ddŵr i droi generaduron.

## Mae trydan yn ddefnyddiol dros ben...

Alli di feddwl am 3 pheth rwyf ti wedi'i ddefnyddio'n barod heddiw oedd angen trydan er mwyn gallu gweithio?


### % YNNI SY'N CAEL EI GYNHYRCHU (UNEDAU)

DULL	Y DU	FFRAINC
OLEW	1	1
NWY	44	4
GLO	32	4
NIWCLEAR	13	78
GWYNT / DŴR	6	12
ARALL	4	1

## Edrycha ar y tabl (ar y chwith) sy'n dangos sut mae trydan yn cael ei wneud yn y DU ac yn Ffrainc

1. Faint o **unedau o drydan** sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU gan ddefnyddio glo?
2. Beth sy'n cael ei **ddefnyddio leiaf i gynhyrchu trydan** yn y DU?
3. Beth sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r **lefel fwyaf o drydan** yn y DU?
4. Beth sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r **lefel fwyaf o drydan** yn Ffrainc?
5. Faint o **unedau o drydan** sy'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio glo, olew a nwy yn:  
**A) y DU? B) Ffrainc**
6. **Cywir neu anghywir:**  
Mae Ffrainc yn cynhyrchu dwywaith nifer yr unedau ynni gyda gwynt a dŵr o'i gymharu â'r DU

### UNEDAU TRYDAN O BŴER NIWCLEAR



## Mae rhai gwledydd yn cynhyrchu mwy o bŵer niwclear na gwledydd eraill er mwyn cynhyrchu trydan

Mae'r graff yn dangos faint o drydan sy'n cael ei gynhyrchu gan bŵer niwclear mewn pum gwlad wahanol.

1. Faint o **unedau o drydan** mae Tsieina yn ei gynhyrchu gyda phŵer niwclear?
2. Pa wledydd sy'n **cynhyrchu'r mwyaf** o bŵer niwclear?
3. Pa wledydd sy'n **cynhyrchu'r lleiaf** o bŵer niwclear?
4. Faint o wledydd sy'n **cynhyrchu 10 uned o drydan**?
5. Sawl **uned yn fwy o drydan** mae'r Almaen yn ei gynhyrchu na Sbaen gan ddefnyddio pŵer niwclear?